Llywodraeth Cymru
Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
31 Gorffennaf 2019

Yn bresennol:
Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AC
Jeremy Miles AC (Cadeirydd)
Lesley Griffiths AC
Kirsty Williams AC
Ken Skates AC (drwy gyfleuster fideogynadledda)
Eluned Morgan AC (drwy gyfleuster fideogynadledda)
Jane Hutt AC

Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog
Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
Simon Brindle, Cyfarwyddwr, Strategaeth Brexit
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd Preifat y Prif Weinidog
Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
Madeline Brindley, Cynghorydd Arbennig
Paul Griffiths, Cynghorydd Arbennig
Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Parodrwydd
Lauren Stamp, Uwch Ysgrifennydd Preifat, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit
Rhys Davies, Gwasanaethau Cyfreithiol

Ymddiheuriadau:
Rebecca Evans AC

Eitem 1: Y newyddion diweddaraf am y datblygiadau UE/DU. Lefel – Eitem Lafar

1.1. Gwahoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit y Prif Weinidog i roi adroddiad ar ei gyfarfod gyda Phrif Weinidog y DU, y Gwir Anrhydeddus Boris Johnson AS, yn gynharach yr wythnos honno.

1.2. Dywedodd y Prif Weinidog fod Prif Weinidog y DU wedi ailadrodd ei neges gyhoeddus nad oedd ymadael heb gytundeb yn uchelgais gan ei Lywodraeth, ond na allai ddweud na fyddai'n digwydd, a'i bod yn hanfodol gynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb yn ystod yr haf, er mwyn sicrhau bod y DU yn barod ar gyfer y senario hwnnw erbyn 31 Hydref.

1.3. Nodwyd bod holl aelodau'r Is-bwyllgor naill ai wedi ymgysylltu â'u cydweithwyr cyfatebol yn Llywodraeth y DU, neu eu bod ar fin gwneud hynny.

Eitem 2: Parodrwydd: Eitem 2: Archwilio'r Sefyllfa Bresennol

2.1 Cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yr eitem.

2.2 Cytunodd yr Is-bwyllgor fod lawer iawn wedi ei gyflawni ers dwysáu'r paratoadau yn yr hydref y llynedd, ond roedd rhagor i'w wneud yn dal i fod, gan mai ymadael heb gytundeb oedd y canlyniad mwyaf tebygol ers i weinyddiaeth newydd y DU gael ei phenodi.

2.3 Cafodd nifer o themâu trawsbynciol eu trafod, gan gynnwys yr ymateb economaidd a chydnerthedd busnesau; yr effaith ar bobl agored i niwed; yr elfennau ariannol a chyllido; a chyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

2.4 Cytunodd yr Is-bwyllgor y dylai Gweinidogion ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid allanol yn ystod yr haf er mwyn parhau â'r ddeialog ddefnyddiol ynghylch y paratoadau ar gyfer ymadael heb gytundeb, ac i roi cyfle i'r holl randdeiliaid gyfrannu wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

2.5 Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, awgrymwyd y dylid cynnal diwrnod ymgysylltu cydlynol ddechrau'r hydref ar gyfer rhanddeiliaid allanol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'u hadrannau i ystyried y sefyllfa o ran parodrwydd ar draws y wlad.

2.6 Nododd yr Is-bwyllgor yr archwiliad.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Gorffennaf 2019